**Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Fwyd**

**Dydd Mercher 3 Hydref 2017**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Jenny Rathbone AC | *Aelod Cynulliad (Cadeirydd)* |
| David Melding AC | *Aelod Cynulliad* |
| Jeremy Miles AC | *Aelod Cynulliad* |
| Huw Irranca-Davies AC | *Aelod Cynulliad* |
| Mike Hedges AC | *Aelod Cynulliad* |
| Kelly Frost | *Frosty's Green Grocers* |
| Mike Frost | *Frosty's Green Grocers* |
| Jack Sellers | *Swyddfa David Melding* |
| Proctor Bethan | *Swyddfa Jenny Rathbone (Ysgrifennydd)* |
| Peter Wong | *Swyddfa Jenny Rathbone* |
| Jessica Hayden | *Swyddfa Jenny Rathbone* |
| Judith Gregory | *Uwch Swyddog Cleientiaid Education Catering* |
| Lucie Taylor | *Cydlynydd y Gwasanaeth Cynghori ar Dir Cymunedol* |
| Katie Palmer | *Iechyd Cyhoeddus Cymru* |
| Rebecca Morgan | *Bwrdd Iechyd* |
| Lisa Williams | *Hwylusydd Hyfforddiant Maeth Cymru Gyfan* |
| Amber Wheeler | *Prifysgol De Cymru* |
| David Morris | *Is-adran Bwyd Llywodraeth Cymru* |

## 1. Swyddogion y Grŵp Trawsbleidiol

Enwebodd David Melding Jenny fel Cadeirydd. Cytunwyd y byddai swyddfa Jenny yn gweithredu fel Ysgrifennydd. Byddai Bwyd Caerdydd, un o bartneriaid y grŵp, yn dosbarthu hysbysiadau o gyfarfodydd yn y dyfodol i bartïon eraill â buddiant.

## 2. Frosty's Green Grocer's.

Mae Kelly a Mike Frost yn berchen ar Frosty's Green Grocers ym Mhontardawe ac yn rhedeg y busnes ar y cyd â'u rhieni. Disgrifiodd Kelly a Mike sut y dechreuodd eu busnes a sut y mae wedi datblygu.

Roedd Kelly yn ddifrifol wael dair blynedd yn ôl ac nid oedd meddyginiaeth draddodiadol yn cael unrhyw effaith o ran ei hiachau. Ymwelodd â Iachäwr Naturiol a'i cynghorodd i fwyta diet organig, di-gig a di-laeth. Fe wellodd iechyd Kelly o fewn wythnosau, ac felly fe'i hysbrydolwyd hi a'i theulu i ddechrau Frosty's Green Grocers er mwyn i'r gymuned allu cael gafael ar y cyngor a'r cynnyrch hwn.

Mae Kelly a Mike yn ceisio prynu eu cynnyrch mor lleol â phosibl, ac felly'n prynu gan ffermydd a chyflenwyr lleol. Maent yn prynu gan gyfanwerthwyr yn Llanbedr

Pont Steffan, fferm ym Mhenrhyn Gŵyr, a llysiau lleol o Bontypridd. Eu nod a'u hethos yw annog eraill yn y gymuned i fwyta'n iach, yn lleol, ac yn organig.

Fe ddechreuon nhw werthu cynnyrch organig ac anorganig, yn ogystal â chynnyrch llaeth a physgod. Maent bellach yn gwerthu dim ond ffrwythau a llysiau a chynnyrch feganaidd organig sy'n ddrutach na rhai anorganig. Pan newidiodd Frosty’s i gynnyrch organig, fe gollon nhw 50% o'u cwsmeriaid. Nid yw Frosty's yn dymuno bod yn hanner organig gan nad yw hyn yn cyd-fynd â'u hethos.

Mae'r effaith ar y trosiant yn golygu nad yw'r naill na'r llall wedi cael cyflog am fwy na 3 mis er eu bod yn parhau i dalu eu biliau. Maent yn benderfynol o aros ar agor a chael llwyddiant. Maen nhw wedi bod ar agor am yn llawer hwy na siop ffrwythau a llysiau gerllaw a gaeodd ar ôl dim ond 6 mis.

Roedd Kelly a Mike ill dau’n cytuno ei bod hi'n anodd hyrwyddo bwyta'n iach.

## 3. Heriau

Mae archfarchnad Lidl wedi agor gerllaw. Pan oedd Lidl ar gau, roedd y busnes yn ffynnu. Mae'r cigyddion lleol yn ei chael hi'n anodd hefyd. Mae caffis lleol yn defnyddio Lidl i brynu eu cynnyrch. Gofynnodd Jeremy Miles a fyddai'n gweithio pe bai’r siop ar yr un safle â Lidl; fodd bynnag, na fyddai oedd ateb Kelly a Mike.

Mae taliadau parcio yng nghanol tref Pontardawe, sy'n golygu bod cwsmeriaid yn cael eu cymell i ddefnyddio Tesco gan y gellir parcio am ddim yno. Er y gellir parcio am ddim am awr, nid yw hyn yn ddigon i gwsmeriaid siopa mewn nifer o siopau lleol.

Dywedodd Kelly a Mike fod llawer o'u cwsmeriaid yn teithio gryn bellter i brynu eu cynnyrch organig - mae hyn yn amlwg yn cyfrannu at filltiroedd bwyd.

Dywedasant y gallai'r label 'organig' atal pobl rhag siopa yno, gan eu bod yn credu na allant ei fforddio. Ni all y rhan fwyaf o bobl yn yr ardal ei fforddio; er enghraifft, mae blwch o frocoli anorganig yn costio £5, ond mae blwch o frocoli organig yn costio £18. Er bod twf o ran cynnyrch organig yn Abertawe, nid yw eto'n gyffredin yn y cymoedd.

## 4. Ethos

Mae Kelly a Mike yn rhedeg eu busnes am eu bod yn frwd dros wneud hynny, yn hytrach na’u bod am wneud elw. Mae'r farchnad yn anodd iawn ar hyn o bryd, ac mae dechrau busnes fel hyn yn fater o siawns.

Dywedasant fod mwy na 100 o gemegau gwahanol mewn bwydydd; fodd bynnag, mae bwyta cynnyrch organig yn dileu hyn.

Busnes teuluol ydyw. Mae Mam a Dad yn rhedeg y siop pan nad yw Kelly a Mike yn bresennol.

## 5. Gwarged a Gwastraff

Gofynnodd Katie a oedd heriau o ran cynnyrch dros ben a gwastraff gyda'r busnes. Dywedodd Kelly a Mike eu bod yn mynd ag unrhyw gynnyrch sydd dros ben adref i'w fwyta eu hunain, a'u bod yn cael eu trethu ar hyn. Mae Kelly a Mike hefyd yn cyfrannu at y banc bwyd os oes ganddynt lawer iawn dros ben.

## 6. **Syniadau wrth Edrych Tua'r Dyfodol**

Gofynnodd Katie a oeddent yn gwneud cawl neu sudd gyda bwyd dros ben. Er bod Mike a Kelly yn cytuno bod hyn yn syniad da, mae'n anodd gan fod gweithdrefnau iechyd a diogelwch ychwanegol yn ofynnol ar gyfer bwyd poeth - mae'n rhaid i'r tymheredd fod yn gywir ac ati.

Awgrymwyd Talebau Cychwyn Iach, gan weithio gyda'r Cynllun Blwch Llysiau Ffermydd Cymunedol.

Awgrymodd Jeremy Miles AC rwydwaith gyda sefydliadau bwyd eraill ym Mhontardawe. Fodd bynnag, gan fod y busnes yn gwerthu cynnyrch fegan ac organig yn benodol, nid ydynt yn tueddu i gynnal busnes gyda siopau eraill.

Awgrymodd Katie y gellid meddwl y tu allan i'r blwch, er enghraifft ffurfio rhwydweithiau ar gyfer cyflenwad ynni, papur toiled, ac ati. Gallai hyn hefyd fod yn ffordd o greu cysylltiadau er mwyn ymgyrchu yn erbyn y taliadau parcio.

Jenny - mae gan siop ffrwythau a llysiau yn Llangollen berthynas agos â bwytai cyfagos. Pan fyddant yn gweld bod eu cynnyrch mewn perygl o fynd yn hen, maent yn gwerthu i fwyty am bris is. Dywedodd Kelly eu bod wedi ceisio ffurfio perthynas â bwytai yn yr ardal; fodd bynnag, nid ydynt wedi manteisio ar hyn gan fod cynnyrch organig yn ddrutach.

Huw Irranca-Davies – mae'r model busnes yn un i'w edmygu. Mae angen datblygu marchnad leol, gan addysgu pobl yn ofalus am newid i gynnyrch organig. Nid oedd Pontardawe wedi arfer â chynnyrch organig. A oedden nhw'n hyderus y gallent ddatblygu ym Mhontardawe? Dywedodd Kelly a Mike eu bod yn ystyfnig. Nid ydynt yn gadael, ond maent yn lledaenu'r gair. Maent wedi dechrau rhoi sgyrsiau i lyfrgelloedd ac ysgolion lleol.

Dywedodd Huw fod pobl yn y rhan fwyaf o gymunedau, yn enwedig yn y cymoedd, yn bwyta'r hyn sydd yno. Rhaid peidio â gwthio'n rhy galed, yn rhy gyflym. Ni allwn roi gorchmynion i gymunedau ac unigolion; rhaid inni ddarparu dewisiadau a gwneud bwyta'n iach yn rhywbeth fforddiadwy.

Marchnad ffermwyr Riverside yng Nghaerdydd - mae'n werth ymweld â hi. Mae RCMA wedi treialu marchnadoedd ffermwyr ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd. Efallai y byddai marchnad myfyrwyr yn Abertawe yn gweithio.

Mae Kelly a Mike yn gweithio gyda marchnad Abertawe - marchnad fisol leol sy'n dod â chynhyrchwyr gwahanol i mewn. Gobeithio y bydd hyn yn dechrau o ddifrif fis Mawrth nesaf.

Dylent drefnu bod stori'n ymddangos yn y papur newydd lleol; mae hyn yn aml yn fwy pwerus na hysbyseb â thâl.

## 7. Bwyta'n Iach mewn Ysgolion ac Ysbytai

Mae Kelly a Mike yn teimlo nad yw bwyd mewn ysgolion yn iach - mae ffrwythau a llysiau ffres yn aml yn 'opsiwn arall', yn hytrach nag ynj orfodol ac ni ddarperir ar gyfer dietau feganaidd. Dim ond Costa a Subway a ddarperir mewn ysbytai megis Treforys, ac nid yw'r naill na'r llall yn arbennig o iach.

Eglurodd Judith Gregory fod prydau ysgol yn seiliedig ar ganllawiau bwyta'n iach Llywodraeth Cymru a bod yn rhaid iddynt gydymffurfio â'r mesur. Dylai fod bwydlenni unigol ar gyfer plant â gofynion dietegol arbennig, gan gynnwys diet feganaidd os gofynnir am hynny.

Roedd cytundeb cyffredinol bod angen gwneud mwy i sicrhau bod dognau mwy o ffrwythau a llysiau mewn prydau ysgol. Sut ydyn ni'n gwneud llysiau'n ddeniadol mewn prydau ysgol? Mae angen i'r cyngor hwn ddechrau'n gynnar - o bosibl gyda Dechrau'n Deg.

Mae Fframwaith Bwydlenni Ysbytai Cymru Gyfan yn darparu bwydlenni safonol i Gymru. Mae Judith John wedi gweithio ar hyn. Mae RCMA yn archwilio'r posibilrwydd o stondin cynnyrch ffres yn y cyntedd yn Ysbyty'r Waun.

## 8. Trafodaeth ar gyfer y Cyfarfod nesaf

Awgrymodd Katie sesiwn yn seiliedig ar ganlyniad ymchwiliad Ailfeddwl am Fwydydd CCERA - dywedodd JR nad yw'n glir pryd fydd hwn yn cael ei gwblhau gan mai dim ond y mis nesaf y bydd yn dechrau clywed tystiolaeth lafar.
Awgrymodd Lucie y dylid ystyried cadwyni cyflenwi ar ôl Brexit - sut allwn ni weithio tuag at fwyta cynnyrch lleol a bod yn llai dibynnol ar fewnforion (ac allforion).

Awgrymodd JR y byddai bwyd mewn ysbytai'n bwnc da ar gyfer y cyfarfod nesaf gan fod cryn dipyn o waith wedi'i wneud ar hyn yn y 4ydd Cynulliad ac felly y gallai ennyn diddordeb mwy o ACau.

Cytunwyd y bydd y cyfarfod nesaf ar y dyddiad canlynol

**Dydd Mercher 7 Chwefror 12pm - Ystafell Gynadledda B**

Bydd Lansiad Cenedlaethol Pys Plîs ar ddydd Mawrth **24 Hydref** yn adeilad y **Pierhead** am **12pm. Estynnir gwahoddiad i bawb.**